LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

23-03 (10)

**Eitem:** 13

**Teitl:** Hysbysiad cydymffurfio Safonau'r Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I nodi |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r hysbysiad cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, y cyfnod ar gyfer gweithredu a'r camau nesaf arfaethedig. |
| **Risg / Risk** | Bydd methu â chydymffurfio o fewn yr amserlen benodedig yn arwain at beidio â chydymffurfio â gofynion statudol. |
| **Cyllid / Finance** | Gall rhai costau fod yn gysylltiedig â gweithredu'r safonau. Bydd gwaith yn cael ei wneud i benderfynu ar y costau hyn dros yr wythnosau nesaf. |
| **Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective Amcan cynllyn strategol / Strategic plan objective** | Mae hwn yn ofyniad statudol.<br><br>Mae hefyd yn unol â pholisi'r Gymraeg sy'n nodi ein huchelgais i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'n pobl a'r cyhoedd. |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Cynhaliwyd asesiad effaith integredig yn ystod datblygiad ein polisi iaith Gymraeg. Nid oedd hyn yn tynnu sylw at unrhyw effaith negyddol. Bydd asesiad effaith pellach yn cael ei gynnal yn ystod gweithredu'r safonau — bydd unrhyw botensial am effaith negyddol yn cael ei gyfleu i'n Bwrdd a Chomisiynydd y Gymraeg. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaethau/rhanddeiliaid ☒ |

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

23-03 (10)

| | |
|---|---|
| | **Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Mae'r papur hwn wedi'i glirio gan y Prif Weithredwr. |
| **Trafodaethau neu penderfyniadau blaenorol / Previous discussions or decisions** | Bu'r Bwrdd yn ystyried a thrafod yr hysbysiad cydymffurfio drafft mewn sesiwn briffio ar 13 Gorffennaf. |
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Ceri Sullivan |
| **Dyddiad / Date** | 16.10.2023 |

**Cefndir / Background**

Cyn i Llais ddod yn weithredol ar 1 Ebrill 2023, cytunodd y Bwrdd ar ei bolisi'r Gymraeg (27 Chwefror 2023). Fel rhan o'r drafodaeth hon, cytunodd y Bwrdd y byddai Llais yn cydymffurfio'n wirfoddol â Safonau'r Gymraeg y cyn Cyngor Iechyd Cymuned nes iddo dderbyn safonau ei hun.

Dechreuodd ymgysylltu â swyddfa'r Comisiynwyr cyn i Llais ddod yn weithredol ac mae wedi parhau ers hynny.

Cyflwynwyd hysbysiad cydymffurfio drafft i Brif Weithredwr Llais ar 13 Mehefin 2023, a nododd hyn ddechrau'r cyfnod ymgynghori.  Rhannwyd yr hysbysiad cydymffurfio drafft gyda'r Bwrdd er gwybodaeth yn sesiwn friffio’r Bwrdd ar 13 Gorffennaf.

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd osod safonau sy'n rhesymol a chymesur, fodd bynnag cyfrifoldeb sefydliad yw profi bod gofyniad yn afresymol ac/neu'n anghymesur — roedd y cyfnod ymgynghori yn gyfle i Llais godi unrhyw bryderon yn hyn o beth.

Daeth y cyfnod ymgynghori ar gydymffurfiaeth drafft Llais i ben ar 18 Awst 2023. Cyhoeddodd Llais ymateb i swyddfa Comisiynwyr y Gymraeg drwy'r ffurflen ymateb bwrpasol a ddarparwyd gan y Comisiynydd.

Ar 29 Medi 2023, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg y canlynol i Llais:

- Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg (23-06 (11) a)

- Atodiad 1 — tabl o newidiadau (23-06 (11) b) — mae hyn yn cynnwys newidiadau a wnaed i'r hysbysiad cydymffurfio yn dilyn yr ymgynghoriad ynghyd â rhai nodiadau ychwanegol i egluro'r gofynion.

- Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol (23-06 (11) c)

Mae gan Llais 6 mis i gydymffurfio â'r safonau o'r dyddiad y derbyniodd ei hysbysiad cydymffurfio terfynol — bydd gofyn i Llais gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o 1 Ebrill 2024.

## Manylion / Detail

Nawr bod Llais wedi derbyn ei hysbysiad cydymffurfio, byddwn yn asesu ein cydymffurfiaeth yn erbyn pob un o'r safonau ac yn mapio unrhyw newidiadau sydd eu hangen i bolisïau a gweithdrefnau. Bydd yr ymarfer hwn yn cael ei oruchwylio gan Tîm  Arwain a bydd y diweddariadau yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel rhan o'r adroddiad rheolaidd ar gydymffurfio â gofynion statudol.

Yn ogystal â'r uchod ac er mwyn cefnogi'r gwaith gweithredu, byddwn hefyd yn:

- adolygu ein canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol;
- adolygu ein datganiad polisi hygyrchedd;
- trefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth Safonau'r Gymraeg i'n pobl;
- adolygu ein harferion presennol ledled Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni ein gofynion;
- cyhoeddi ein hysbysiad cydymffurfio ar ein gwefan, a gofyn am adborth gan bobl yn rhagweithiol am yr hyn y maent ei eisiau gennym o ran y Gymraeg (a chyfathrebiadau ehangach); a
- sicrhau cyfathrebu rheolaidd â Chomisiynydd y Gymraeg a'u rhybuddio cyn gynted â phosibl, am unrhyw faterion y byddwn yn dod ar eu traws a allai oedi cydymffurfio'n llawn.

Mae gan bob sefydliad hawl i herio'r ddyletswydd drwy weithdrefn herio ac apelio'r Comisiynydd ar ôl derbyn yr hysbysiad cydymffurfio terfynol.

Er bod gan y Comisiynydd yr hyblygrwydd i osod dyddiad diweddarach, byddai angen i'r sefydliad brofi y byddai'n afresymol a/neu'n anghymesur cydymffurfio o fewn y cyfnod hwnnw o 6 mis a chyflwyno achos pellach i'r Comisiynydd.

Ar hyn o bryd nid ydym yn rhagweld unrhyw broblemau yn cydymffurfio â'r safonau a dderbyniwyd. Fodd bynnag, o ystyried bod Llais yn sefydliad newydd sy'n dal i weithredu llawer o'i systemau a'i bolisïau, efallai y gwelwn fod angen amser ychwanegol. Ni fydd hyn yn hysbys nes bod Tîm Arwain yn cynnal ymarfer mapio i nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

**Gweithredu:**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r canlynol:

- hysbysiad cydymffurfio a'r amserlen ar gyfer gweithredu;
- dull gweithredu sy'n cael ei gymryd i reoli a monitro gweithredu; a
- chamau ychwanegol sy'n cael eu cymryd i gefnogi gweithredu.